

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4 a
Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa
Coryton, Caerdydd i Gylchfan
Cefn Coed, Merthyr Tudful)
(Gwahardd Cerbydau a Beicwyr
Dros Dro) 2019

M4 Motorway & A470 Trunk
Road (Coryton Interchange,
Cardiff to Cefn Coed Roundabout,
Merthyr Tydfil) (Temporary
Prohibition of Vehicles & Cyclists)
Order 2019

Gwnaed 4 Ionawr 2019
Yn dod i rym 10 Ionawr 2019

Made 4 January 2019
Coming into force 10 January 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the relevant lengths of the M4 Motorway and the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway and trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 10 Ionawr 2019.

1. The title of this Order is the The M4 Motorway & A470 Trunk Road (Coryton Interchange, Cardiff to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2019 and it comes into force on 10 January 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

2. In this Order:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 10 Ionawr 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") ac "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru a Chefnffordd yr A470 Caerdydd i Llangurig.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o'r draffordd a'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Ionawr 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

"the motorway" ("*y draffordd*") and "the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the M4 London to South Wales Motorway and the A470 Cardiff to Llangurig Trunk Road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 20:00 on the 10 January 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle to proceed on the length of the motorway and the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride or cause to be ridden any pedal cycle on the lengths of the motorway and the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 4 January 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLEN

ATODLEN 1

(M4)

Y darnau o ffyrdd ymadael neilltuedig tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 32 (Coryton) sy'n arwain at yr A470 tua'r gogledd.

(A470)

Y darn o gefnffordd yr A470, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael o Gyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful.

Ffordd gyswllt neilltuedig yr A470 o'i chyffordd â phrif gerbyttffordd gylchredol Cyfnewidfa Coryton i'w chyffordd â phrif gerbyttffordd tua'r de yr A470.

GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 A CHEFNFFORDD YR A470 (CYFNEWIDFA CORYTON, CAERDYDD I GYLCHFAN CEFN COED, MERTHYR TUDFUL) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2019

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar Draffordd yr M4 a chefnffordd yr A470, neu gerllaw iddynt, rhwng Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd a Chylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) a beicwyr (A470) rhag mynd ar y darn o Draffordd yr M4 ac ar hyd ddarnau penodol o'r A470 pan fo'n ofynnol gwneud gwaith ar safleoedd penodol, o Gylchfan Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful, fel y'u disgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Rhestrir y trefniadau ar gyfer y llwybrau eraill yn Atodlen 2.

Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 10 Ionawr 2019 a disgwylir iddo fod yn weithredol yn ysbeidiol yn ystod y nos (20:00 - 06:00 o'r gloch) am 18 mis ar y mwyaf. Pan fo'n ymarferol, arddangosir hysbysiad ymlaen llaw ynghylch y gwaharddiadau tuag un wythnos cyn bod angen cau darn penodol o'r ffordd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau statudol lleol/Gorchymynion traffig dros dro/2019).

SCHEDULE

SCHEDULE 1

(M4)

The lengths of the eastbound and westbound dedicated exit slip lanes of the motorway at Junction 32 (Coryton) leading to the northbound A470.

(A470)

The length of the A470 trunk road, including all entry and exit slip roads from Coryton Interchange, Cardiff to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil.

The dedicated A470 link road from its junction with the main circulatory carriageway of Coryton Interchange to its junction with the main southbound carriageway of the A470.

THE M4 MOTORWAY & A470 TRUNK ROAD (CORYTON INTERCHANGE, CARDIFF TO CEFN COED ROUNDABOUT, MERTHYR TYDFIL) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES & CYCLISTS) ORDER 2019

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the M4 Motorway & A470 trunk road between Coryton Interchange, Cardiff and Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) and cyclists (A470), from proceeding on the length of the M4 Motorway and over specific lengths of the A470 when work at a particular site is required, that extends from Coryton Roundabout, Cardiff to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil as described in Schedule 1 to this Notice. The alternative route arrangements are as listed in Schedule 2.

This order will come into force on 10 January 2019 and is expected to operate intermittently over night (20:00 - 06:00 hours) for a maximum duration of 18 months. Where practical, advance notice of the prohibitions will be displayed approximately one week before closure of a certain length of road is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

SCHEDULE

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

(M4)

(M4)

Y darnau o ffyrdd ymadael neilltuedig tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 32 (Coryton) sy'n arwain at yr A470 tua'r gogledd.

The lengths of the eastbound and westbound dedicated exit slip lanes of the motorway at Junction 32 (Coryton) leading to the northbound A470.

(A470)

(A470)

Y darn o gefnffordd yr A470, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael o Gyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful.

The length of the A470 trunk road, including all entry and exit slip roads from Coryton Interchange, Cardiff to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil.

Ffordd gyswllt neilltuedig yr A470 o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cyfnewidfa Coryton i'w chyffordd â phrif gerbyttfordd tua'r de yr A470.

The dedicated A470 link road from its junction with the main circulatory carriageway of Coryton Interchange to its junction with the main southbound carriageway of the A470.

ATODLEN 2

SCHEDULE 2

(Llwybrau Eraill)

(Alternative Routes)

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyrriad ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r M4 a'r A470 a ddisgrifir uchod ar gau dros dro i draffig.

The alternative routes will be signed with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the M4 and A470 within the above description is temporarily closed to traffic.

Mae llwybrau eraill ar gael drwy fynd ar yr A4054, A473, A472, A465, A468, A4060, A470, A4058 a'r B4275, fel y bo'n briodol.

Alternative routes are available via the A4054, A473, A472, A465, A468, A4060, A470, A4058 and B4275, as appropriate.